OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Bod yn deg gyda phawb

## Ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol ar gyfer 2019-2020

## a'n cynlluniau ar gyfer 2020-21

easy read

# Cynnwys


3 Cyflwyniad



4 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



6 Bod yn deg gyda phawb




25 Mwy o wybodaeth

# Cyflwyniad


Dogfen gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw hon.




Bob blwyddyn rydym yn ysgrifennu adroddiad ar y gwaith a wnawn i wneud pethau'n decach i bawb yng Nghymru.




Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r gwaith rydym wedi'i wneud yn 2019 a 2020.




Hefyd, mae'n esbonio rhywfaint o'r gwaith rydym yn bwriadu ei wneud yn 2020 a 2021.

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



Sefydliad annibynnol ydym ni.

Rydym yn gwneud tri phrif beth:

1. Rydym yn ymchwilio i gwynion am **wasanaethau cyhoeddus** yng Nghymru.




Gwasanaeth a gaiff ei ddarparu gan sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth yw **gwasanaeth cyhoeddus**.



2. Rydym yn ymchwilio i gwynion am **gynghorwyr** lleol.



Rhywun sydd wedi'i ddewis i redeg cyngor yw **cynghorydd**.



3. Rydym yn gweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus.



Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cysylltu gyda ni yn gwneud cwyn am wasanaeth cyhoeddus neu gynghorydd lleol.

# Bod yn deg gyda phawb




Mae'r gyfraith yn dweud na ddylai pobl gael eu trin yn wahanol oherwydd:

- eu hil



- eu hoedran




- eu crefydd



- eu hanabledd



- eu rhywioldeb – mae hyn yn golygu bod yn hoyw neu'n strêt neu'n rhywbeth arall



- eu rhywedd – mae hyn yn golygu bod yn ddyn neu'n fenyw. Neu oherwydd eu bod wedi newid eu rhywedd.



- eu bod yn feichiog neu wedi cael babi newydd



- eu statws priodasol – mae hyn yn golygu wedi priodi neu heb briodi.



Ond yn aml, caiff rhai grwpiau o bobl eu trin yn wahanol ac ni chânt eu trin yn deg fel pawb arall.



Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl o'r grwpiau hyn yn:

- defnyddio ein gwasanaethau, fel pawb arall



- cael eu trin mewn ffordd deg.

# Yr hyn a wnaethom y llynedd a'r hyn bwriadwn ei wneud nesaf




## Gwneud mwy i sicrhau bod pobl o bob grŵp yn defnyddio ein gwasanaethau

Dyma a wnaethom eleni:



- parhau i gasglu gwybodaeth am gefndir pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau



- gweithio ar ffordd well o gasglu'r wybodaeth hon



- gweithio ar ffyrdd gwell o reoli'r wybodaeth hon




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- gwella'r cwestiynau a ofynnwn i bobl sy'n cysylltu â ni



- gwella sut byddwn yn casglu gwybodaeth gan bobl sy'n cysylltu â ni ar y ffôn neu drwy neges destun



- gwneud nodyn o achosion lle mae pobl wedi cael eu trin yn annheg er mwyn gweld a oes rhai pethau'n digwydd yn amlach.

## Grwpiau o bobl nad ydynt yn cysylltu â ni




Eleni:

- fe wnaethom ddysgu mwy am yr hyn sy’n rhwystro pobl hŷn rhag cysylltu â ni.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- dysgu mwy am yr hyn sy’n rhwystro pobl o’r grwpiau canlynol rhag cysylltu â ni:



  - pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig



  - pobl na chawsant eu geni yn y wlad hon.



- gwneud mwy o waith gyda’r sefydliadau sy’n cefnogi’r bobl hyn.




## Sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bawb


Eleni:



- roedd bron y cyfan o’r bobl a ddefnyddiodd ein gwasanaethau yn credu ein bod yn hygyrch




- fe wnaethom gasglu gwybodaeth gan y bobl hyn i’n helpu i sicrhau bod grwpiau gwahanol yn defnyddio ein gwasanaethau



- fe wnaethom ddechrau newid sut rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch i bobl anabl



- er mwyn helpu pobl sy’n cael trafferth ysgrifennu, fe wnaethom drefnu i bobl allu dweud eu cwyn wrthym trwy siarad â ni.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- parhau i sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch




- rhoi gwybod i fwy o bobl y gallant ddweud eu cwyn wrthym trwy siarad â ni



- rhoi gwybod i bobl y gallant ofyn am newidiadau a fydd yn eu helpu i ddefnyddio ein gwasanaethau fel pawb arall.





## Sicrhau bod ein staff yn gwybod sut i wneud ein gwasanaethau yn hygyrch i bawb


Dyma a wnaethom eleni:




- gwneud mwy i helpu pobl anabl




- cynnwys hyfforddiant ar fod yn deg gyda phawb yn ein hyfforddiant ar gyfer staff newydd



- hyfforddi rhai o'n staff i ddeall mwy am weithio gyda'r canlynol:
    - pobl â chyflyrau iechyd meddwl



- pobl ag awtistiaeth



- pobl sy'n ymddwyn yn heriol.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- rhoi mwy o hyfforddiant i'n staff



- gwneud un o'n staff yn 'Hyrwyddwr Awtistiaeth' er mwyn helpu gweddill ein staff i ddeall mwy am awtistiaeth.




# Darparu mwy o wybodaeth am sut gallwn helpu pobl sydd wedi cael eu trin yn annheg gan wasanaeth cyhoeddus

Eleni:




- fe wnaethom ysgrifennu llyfryn yn nodi sut mae'n rhaid i wasanaethau fod yn deg gyda phawb. Fe wnaethom lunio fersiwn Hawdd ei Deall o'r llyfryn hwn.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- ysgrifennu fersiwn ddiweddarach o'r llyfryn hwn.



## Bod yn deg pan fyddwn yn rhoi ein hymchwiliadau ein hunain ar waith

Mae’r rhan fwyaf o’n gwaith yn deillio o gwynion gan bobl yng Nghymru.



Ond yn awr, gallwn roi ein **hymchwiliadau** ein hunain ar waith os ydym yn credu bod rhywbeth yn mynd o’i le mewn gwasanaeth cyhoeddus.



Yn ystod **ymchwiliad**, byddwn yn edrych ar rywbeth yn fanwl i weld beth sydd wedi digwydd.




Dyma a wnaethom eleni:

- helpu gwasanaethau i lunio rheolau er mwyn sicrhau eu bod yn trin pawb yn deg wrth ystyried cwynion



- wrth inni roi ein hymchwiliadau ein hunain ar waith, gwirio ein bod yn deg gyda phawb.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- gwirio bod ein hymchwiliadau ein hunain i ddigartrefedd yng Nghymru wedi bod yn deg gyda phawb.




## Sicrhau ein bod yn deg pan fyddwn yn rhoi swyddi i bobl

Dyma a wnaethom eleni:



- edrych ar y cwestiynau rydym yn eu gofyn i bobl sydd eisiau swydd gyda ni



- edrych ar gefndir pobl rydym wedi rhoi swydd iddyn nhw. Roeddem eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn deg gyda grwpiau gwahanol o bobl



- gwirio ein bod yn deg gyda'n staff.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- creu ffordd newydd o wirio ein bod yn deg gyda'n staff.




## Sicrhau bod gennym fwy o staff o grwpiau nad ydynt fel arfer yn cael cyfle teg

Eleni:



- fe wnaethom ddysgu mwy am sut i fod yn deg gyda phobl anabl sy'n gweithio gyda ni.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- newid y ffordd rydym yn hysbysebu am staff newydd, er mwyn i'r drefn fod yn decach i bobl anabl



- gwneud mwy i gynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wrth hysbysebu am staff newydd.



# Sicrhau ein bod yn talu ein staff mewn ffordd deg

Mewn sawl sefydliad, dynion sy'n ennill yr arian mwyaf. Menywod sy'n ennill yr arian lleiaf, fel arfer.

Mae hyn yn annheg.



Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU


Rydym eisiau newid hyn yn ein sefydliad.




Dyma a wnaethom eleni:



- lleihau'r bwlch rhwng faint mae dynion a menywod sy'n gweithio i ni yn ei ennill
- ennill y wobr arian mewn cynllun sy'n gwirio bod sefydliadau yn trin dynion a menywod yn deg.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- gwneud mwy i wella'r gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a menywod



- gwella'r ffordd rydym yn cefnogi staff sy'n gofalu am rywun.



# Bod yn deg gyda staff o wahanol gefndiroedd a staff sydd ag anawsterau iechyd meddwl




Dyma a wnaethom eleni:

- rhoi ein cynlluniau newydd ar waith i helpu pobl i fod yn hapus ac yn iach yn y gwaith



- hyfforddi staff i sylwi pe bai rhywun yn dechrau dioddef salwch meddwl



- trefnu ystafell y gall ein staff fynd iddi i gael tawelwch neu i weddïo



- gofyn i’n staff feddwl sut gall pob un ohonynt ein helpu i fod yn decach.





Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- helpu ein staff i ddeall mwy am y gwaith a wnawn i fod yn decach a’u cefnogi i fod yn hapus ac yn iach yn y gwaith



- gwirio sut mae ein staff yn dymuno ein helpu i fod yn decach a pha hyfforddiant y maent ei angen



- gofyn i’n staff a ydynt o’r farn y bydd pawb yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol.




# Sicrhau ein bod yn deg gyda phawb pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau

Eleni:



- fe wnaethom ystyried sut rydym yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'n ffordd o weithio, er mwyn gweld a oes yna ffordd well o sicrhau ein bod yn deg gyda phawb.




Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- gwirio ein bod yn deg gyda phawb pan fyddwn yn prynu pethau.

# Mwy o wybodaeth




Os ydych angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni:

Ar y ffôn:
**0300 7900203**




Trwy ebost:
**holwch@ombwdsmon.cymru**




Ar ein gwefan:
**www.ombwdsmon.cymru**




Trwy'r post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**